# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD LLUN, 24 EBRILL 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Molik(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ahmed, Ahmed, Ash-Edwards, Boes, Lewis, Littlechild a/ac McGarry |

## 55 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Lent a Jenny Rogers.

## 56 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Littlechild fuddiant personol yn Eitem 4 gan ei fod yn weithiwr cymunedol yn y trydydd sector ac yn gweithio gyda phobl ddigartref.

## 57 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2023 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

## 58 : MYND I'R AFAEL AC ATAL DIGARTREFEDD AR Y STRYD YNG NGHAERDYDD

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i bawb a oedd yn bresennol ac eglurodd mai pwrpas y cyfarfod oedd archwilio trefniadau'r cyngor ar gyfer y rhai sydd ag anghenion cymhleth a chael trafodaethau gonest, ar yr hyn sy'n mynd yn dda, ond hefyd ar feysydd lle gallai'r cyngor wella'r hyn a gynigir ganddo.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Thorne i wneud datganiad, lle dywedodd:
*'Mae'n dda gweld cymaint o bartneriaid yn cael eu cynrychioli yma heddiw a hoffwn ddechrau drwy ddiolch i bawb sy'n gweithio yn y sector digartref – maen nhw'n gwneud gwaith anhygoel yn y cyfnod heriol iawn hwn.*

*Mae llawer o gynnydd wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf o ran datblygu ein gwasanaethau a'n cynnig llety, gan gynnwys:*

*Datblygu'r Tîm Amlddisgyblaethol Digartref - ac yn fwy diweddar y Tîm Amlddisgyblaethol pobl ifanc, gan ddod â gwasanaethau'n uniongyrchol i'r unigolion sydd eu hangen fwyaf.*

*Erbyn hyn mae gennym nifer o gynlluniau Tŷ yn Gyntaf ar waith yn y ddinas, ac er eu bod yn dal i fod yn gyfyngedig o ran niferoedd, mae'r cynlluniau hyn yn helpu rhai o'r unigolion mwyaf cymhleth i gael llety.*

*Mae datblygiad y Ganolfan Asesu Sengl, Tŷ Effraim, Llys Adams a llety parhaol yn ein blociau newydd dan reolaeth wedi darparu 360 uned ychwanegol o lety o ansawdd da i bobl sengl ddigartref.*

*Gwnaed gwelliannau hefyd i'r llwybr anghenion isel gan yr YMCA ac mae gwasanaethau estynedig bellach yn cael eu cynnig gan Huggard, sy’n sicrhau bod gennym ystod eang o ddarpariaeth ar waith.*

*Mae'n rhaid i mi ddweud nad wyf yn adnabod ein gwasanaethau o'r sylwadau gan bobl a gafodd eu cyfweld – daeth ein Tîm Allgymorth, gan gydweithio â'r Wallich a Byddin yr Iachawdwriaeth, â 92 o bobl sy'n cysgu ar y stryd i lety'r llynedd, ac mae nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd yn dal ymhell islaw'r lefelau cyn y pandemig*

*Er gwaethaf yr holl waith da hwn fodd bynnag - oherwydd yr argyfwng tai presennol sy'n cael ei brofi ledled Cymru - mae gwasanaethau'n parhau dan bwysau mawr.*

*Mewn dim ond un noson, roedd dros 90 o bobl wedi gofyn am help gyda llety brys. Er mwyn sicrhau y gallem fodloni'r galw hwn, yn anffodus bu'n rhaid i ni ailddechrau'r defnydd o fannau cysgu a rennir.*

*Mae hyn hefyd wedi golygu bod lleoliadau'n aml yn cael eu gwneud yn seiliedig ar y llety sydd ar gael yn hytrach nag anghenion yr unigolyn.*

*Felly, mae'n amlwg bod mwy o waith i'w wneud o hyd ac rwy'n falch o ddweud bod gennym gynlluniau i agor mwy o gynlluniau symud ymlaen yn ddiweddarach eleni, gan ddarparu llety sefydlog o ansawdd da i bobl ddigartref sengl.'*

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Thorne am ei datganiad a dywedodd wrth bawb a oedd yn bresennol er mwyn helpu i sicrhau bod y cyfarfod yn parhau i ganolbwyntio, bod llinellau ymholi'r Pwyllgor wedi'u rhannu'n dair rhan. Y rhan gyntaf yw llwybr cymorth, yr ail yw gwasanaethau sydd ar gael, a'r trydydd yw mynd i'r afael â heriau.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau, sylwadau ac arsylwadau gan yr Aelodau.

Nododd yr Aelodau fod y cyngor yn dilyn y meini prawf cymhwysedd a amlinellir yn Neddf Tai (Cymru) ac yn mynd y tu hwnt i'w ddyletswydd statudol i sicrhau dull tosturiol. Fodd bynnag, roedd yr Aelodau'n pryderu y gallai paramedrau deddfwriaethol barhau i rwystro mynediad unigolion at gymorth. Roedd yr Aelodau o'r farn ei bod yn hanfodol i awdurdodau lleol gydweithio i reoli'r galw a phwysau capasiti.

Roedd yr Aelodau hefyd yn cydnabod canlyniadau anfwriadol Deddf Rhentu Cartrefi Cymru, a all effeithio ar argaeledd eiddo. Roedd yr Aelodau o'r farn bod angen adolygiad cenedlaethol o'r broses gymhwysedd ac ôl-effeithiau Deddf Rhentu Cartrefi Cymru, ac roeddent yn annog ymgysylltu â sectorau perthnasol a Llywodraeth Cymru.

Roedd yr Aelodau'n cydnabod gwerth ac effeithiolrwydd y Tîm Amlddisgyblaethol a'r Gwasanaethau Allgymorth, a phwysigrwydd eu twf a'u buddsoddiad. Yn ogystal, anogodd yr Aelodau ymdrechion i wella'r llwybrau sy'n cysylltu'r gwasanaethau hyn â gwasanaethau cymunedol prif ffrwd, gan ganolbwyntio'n benodol ar iechyd meddwl.

Nododd yr Aelodau fod Gweithgareddau Dargyfeirio'n chwarae rhan hanfodol wrth ymgysylltu ag unigolion, diogelu eu lles, a darparu dewis arall cadarnhaol yn lle ffyrdd o fyw ar y stryd. Anogwyd yr Aelodau i glywed effaith gadarnhaol y gweithgareddau hyn gan bartneriaid fel yr heddlu a'r gwasanaethau iechyd.

O ran mynediad at ddarpariaeth frys, roedd yr Aelodau'n gwerthfawrogi'r gydnabyddiaeth nad yw systemau ciwio yn ddelfrydol, ac yn croesawu'r ymdrechion a wnaed i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Roedd yr Aelodau'n deall y rhesymau dros gyfyngu ar amser ar ddarpariaethau brys mewn amgylchiadau eithafol, ond mynegwyd pryderon efallai na fydd cyfyngiadau o'r

fath yn cynnig datrysiad hirdymor a diogel i unigolion.  Roedd yr Aelodau'n cydnabod y pwysau ar wasanaethau a'r angen am fannau mwy gwybodus am drawma.

Nododd yr Aelodau, oherwydd y cynnydd sylweddol yn y galw ac ymrwymiad y cyngor i gefnogi pob unigolyn, y bu dibyniaeth dros dro ar fannau a rennir. Rhannodd yr Aelodau'r pryderon a fynegwyd gan yr Aelod Cabinet a phartneriaid ynghylch mannau a rennir, a nodwyd y cadarnhad y bydd darpariaeth llety yn y dyfodol, sy'n cael ei datblygu gan y cyngor, yn canolbwyntio ar fflatiau neu ystafelloedd hunangynhwysol.

Cymeradwyodd yr Aelodau'r ymdrechion a wnaed i ddarparu 360 o opsiynau llety hunangynhwysol ychwanegol ers y pandemig.

O ran diogelwch darpariaethau, mae'r Aelodau'n deall y gallai fod gan unigolion, sy'n ceisio cymorth, bryderon gwirioneddol am eu diogelwch. Gall y pryderon hyn fod yn gymhleth ac yn gysylltiedig â'r trawma y maent wedi'i brofi, yn ogystal â chymhlethdodau eu hanghenion.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch diffinio 'cartref' ar gyfer llawer o ddefnyddwyr gwasanaeth, a ddaeth â chysyniad nad oedd efallai'n amlwg ar unwaith i'r rhai y tu allan i'r sector.  Roedd yr Aelodau'n cytuno â'r farn a gyflwynwyd yn y cyfarfod, ac yn cefnogi'r farn honno, bod nifer o agweddau cymhleth yn ymwneud â helpu unigolion i deimlo'n ddiogel, sy'n cael eu blaenoriaethu yn y dull gweithredu. Cytunodd yr Aelodau ei bod yn bwysig cydnabod dynameg unigol, gan y gallai rhai unigolion ddewis peidio â chael mynediad at ddarpariaethau oherwydd pryderon am ddod ar draws unigolion diangen neu gael eu tynnu'n ôl i ffyrdd o fyw ar y stryd, ac y gallai symud i ffwrdd o lety gofod a rennir helpu i fynd i'r afael â'r pryder hwn.

Cydnabu'r Aelodau'r angen i newid y canfyddiad bod darpariaeth llety yn anniogel, gan nodi bod gwasanaethau a darparwyr y cyngor yn gwneud ymdrechion sylweddol i adeiladu perthnasoedd a chynnig cymorth wedi'i deilwra i fynd i'r afael â hyn.

O ran defnyddio swyddogion diogelwch sydd wedi'u hyfforddi drwy Awdurdod y Diwydiant Diogelwch, cytunodd yr Aelodau ei bod yn hanfodol bod eu defnydd yn cael ei wneud yn sensitif ac mewn modd sy'n seiliedig ar drawma, gyda gweithwyr cymorth yn gweithio ochr yn ochr â nhw.

Cytunodd yr Aelodau â'r sylwadau ynghylch lleihau neu atal achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol o fewn darpariaethau a nodwyd bod camau'n cael eu cymryd i feithrin ymdeimlad o gymuned, nodi risgiau'n gynnar, gweithredu cynlluniau rheoli risg effeithiol trwy arferion cefnogol ac adferol, a darparu llety o ansawdd uchel. Anogodd yr Aelodau'r cyngor i barhau â'r ymdrechion hyn a chynnig cefnogaeth i ddarparwyr allanol yn ôl yr angen.  Roedd yr Aelodau hefyd o'r farn y gallai fod o fudd i'r cyngor, mewn partneriaeth â darparwyr, i adolygu eu polisi troi allan.

Nododd yr Aelodau fod gwasanaethau digartrefedd y cyngor yn gweld gwell recriwtio staff, a'r pwyslais a roddir ar ddarparu hyfforddiant effeithiol i staff. Anogodd yr Aelodau'r ymrwymiad i gynnig hyfforddiant ar sail trawma i staff ac awgrymwyd ystyried ymestyn yr hyfforddiant ar sail trawma i staff y cyngor, nad ydynt o bosibl yn gweithio'n uniongyrchol yn y sector, ond mae ganddynt rolau sy'n gysylltiedig yn agos â chefnogi unigolion sydd ag anghenion cymhleth.

O ran lleoliad darpariaethau, cydnabu'r Aelodau gynlluniau'r cyngor i ddosbarthu llety ar draws y ddinas yn y dyfodol.  Croesawodd yr Aelodau'r dull hwn gan y gall gyfrannu at ddiogelu unigolion, cefnogi eu lles, a meithrin cysylltiadau cymunedol cadarnhaol.

Wrth drafod materion Tŷ yn Gyntaf, nododd yr Aelodau fod gwaith monitro perfformiad y pwyllgor yn amlygu ei effeithiolrwydd wrth fynd i'r afael â digartrefedd rheolaidd ond nad oeddent yn ymwybodol o feini prawf penodol a allai gyfyngu ar fynediad unigolyn at gynlluniau o'r fath. Anogodd yr Aelodau bod y mater hwn yn cael ei godi gyda Llywodraeth Cymru.

CYTUNWYD: y byddai’r Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu sylwadau’r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

59 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim wedi’u derbyn.

60 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

15 Mai 2023 am 2.00pm

Daeth y cyfarfod i ben am 4.40 pm